


RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL
45/2016
DYDDIAD CYHOEDDI
13 GORFFENNAF 2016

Barometr Busnes Twristiaeth Cymru

Cam 2, Gŵyl Banc y Gwanwyn a Hanner Tymor 2016



Barometr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 2, Gŵyl Banc y Gwanwyn a Hanner Tymor 2016

Anthony Lydall a Laura Nesbitt, Strategic Marketing



Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

Dr Robert Lewis, Pennaeth Ymchwil Twristiaeth,

robert.lewis@wales.gsi.gov.uk

Adran: Adran Gwyddoniaeth, Economeg a Thrafnidiaeth

Canolfan QED

Ystad Trefforest

Pontypridd

Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6026

Cynnwys

Y:\PROJECTS\Visit Wales\Barometer\2016\June 2016\150601-wales-tourism-business-survey-wave-1-2016-en WELSH.docx - _Toc455565128

1. CANFYDDIADAU PENNAWD.....	2
2. CANFYDDIADAU ANSODDOL.....	4
3. CEFNDIR A METHODOLEG.....	7
4. PERFFORMIAD YN YSTOD GŴYL BANC Y GWANWYN A HANNER TYMOR	9
5. PERFFORMIAD ELENI HYD YMA.....	15
6. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER YR HAF	16
7. HYRWYDDO BUSNESAU	18

1. CANFYDDIADAU PENNAWD

Y tywydd yn rhoi hwb hwyr i ddiwydiant

- 1.1 Roedd 85% o fusnesau yn yr arolwg wedi cael lefel uwch neu lefel debyg o fusnes yn ystod cyfnod gŵyl banc y gwanwyn/hanner tymor yn 2016 o gymharu â'r un cyfnod yn 2015.
- 1.2 Adroddodd 40% am lefel uwch o fusnes a 45% tua'r un lefel o fusnes ag yn 2015.
- 1.3 Yn benodol, mae'r sector carafanau a gwerysyla wedi elwa ar y tywydd cynnes, sych (mae 62% yn adrodd am gynnydd yn nifer yr ymwelwyr), fel y mae atyniadau (mae 54% yn adrodd am gynnydd yn nifer yr ymwelwyr), a bwytai/tafarnau/caffis (mae 57% yn adrodd am gynnydd).
- 1.4 Mae tua dwy ran o bob tair (65%) sydd wedi gweld cynnydd yn dweud bod y tywydd yn un o'r prif resymau dros hyn.

Rhagor o ymwelwyr wedi arwain at ragor o elw

- 1.5 Mae dau o bob pum (41%) gweithredwr a ymatebodd yn dweud eu bod wedi gweld cynnydd yn eu helw hyd yma eleni, o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae dros hanner (56%) y bwytai/tafarnau/caffis wedi gweld cynnydd yn eu helw, fel y mae 48% o atyniadau a 44% o weithredwyr safle carafanau a gwerysyla.

Disgwylir haf llwyddiannus

- 1.6 Mae disgwyliadau'n uchel ynghylch yr haf, gyda 41% o ymatebwyr yn disgwyl y byddant yn croesawu rhagor o ymwelwyr na'r haf diwethaf. Mae hanner (50%) o fwytai/tafarnau/caffis yn disgwyl bod ar eu hennill, fel y mae canran debyg o atyniadau (48%).
- 1.7 Mae hyder ar i fyny, gyda 40% yn dweud eu bod yn 'hyderus iawn', a 47% pellach yn 'eithaf hyderus' ynghylch tymor yr haf. Mae pob hostel (100%) naill ai'n hyderus iawn neu'n eithaf hyderus ynghylch y tymor.

Mae gwneud eich marchnata eich hunain yn arwain gweithgarwch marchnata

- 1.8 Mae dros hanner (54%) y busnesau a ymatebodd yn dweud bod gwneud eu marchnata eu hunain yn un o'u prif ffyrdd o hyrwyddo eu busnes.
- 1.9 Ond yn fwyfwy mae gweithredwyr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn denu rhagor o ymwelwyr. Ar hyn o bryd, mae 48% yn dweud bod y platfformau hyn yn un o'r prif ffyrdd y maent yn hyrwyddo eu busnes, a thrwy'r sylwadau agored mae ymatebwyr yn dangos bod mynd ar-lein i ddenu ymwelwyr yn dueddiad cynyddol.

- 1.10 Mae 42% o fusnesau'n parhau i ddibynnu ar ymwelwyr yn dod yn ôl, ac mae 43% yn dweud bod argymhellion llafar yn ffordd bwysig o ddenu ymwelwyr newydd.

Tueddiad cynyddol bach tuag at dderbyn busnes trwy drydydd partiön

- 1.11 Ar draws pob sector, mae cyfartaledd o 65% o fusnes yn dod yn uniongyrchol, a 35% yn dod trwy drydydd parti. Mae sectorau nad ydynt yn cynnig llety yn derbyn mwyafrif eu busnes yn uniongyrchol, ond ymhlith gweithredwyr sy'n cynnig llety mae'r ffigur yn agosach at 50/50.
- 1.12 Mae pob sector wedi gweld symudiad bach o dderbyn busnes yn uniongyrchol i dderbyn busnes trwy drydydd partiön yn ystod y tair blynedd diwethaf, ar wahân i'r sector hunanarlwyo, sydd wedi aros tua'r un peth.
- 1.13 Ar draws pob sector roedd cyfartaledd o 31% o fusnes yn dod trwy drydydd partiön dair blynedd yn ôl, o gymharu â 35% heddiw.
- 1.14 Mae'r sector llety a wasanaethir wedi gweld symudiad sylweddol tuag at dderbyn busnes trwy drydydd partiön – 35% dair blynedd yn ôl, o gymharu â 44% heddiw.

2. CANFYDDIADAU ANSODDOL

- 2.1 Mae wyth cyfweliad trwyadl wedi cael eu cynnal dros y ffôn â ffigurau twristiaeth allweddol ar draws y gwahanol sefydliadau a chyrff ledled Cymru.
- 2.2 Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

Twristiaid yn croesawu'r tywydd braf

- 2.3 Mae'r teimlad a adlewyrchir ar draws y diwydiant twristiaeth yn un cadarnhaol. Mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu'n ddiweddar, o gymharu â'r un adeg y llynedd, ac ar gyfer rhai dyma'r cyfnod prysuraf maent wedi'i weld ers blynnyddoedd. Nid bychan yw'r rhan y mae'r tywydd braf yn ystod gŵyl banc y gwanwyn wedi'i chwarae.

"Roedd y tywydd yn braf iawn, felly, dw i wedi cael adborth cadarnhaol iawn ynglŷn â phobl yn bod yn brysur iawn"

"Mae wedi bod yn dda iawn. Mae'r tywydd wedi bod o gymorth"

"Mae llawer mwy o bobl i'w gweld o gwmpas, sy'n anarferol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn, felly, dw i'n credu bod pobl wir wedi croesawu'r penwythnos gŵyl banc hwn"

"Mae'n well na'r llynedd oherwydd y tywydd"

- 2.4 Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar y lleoliad. Mae'r ardaloedd sy'n bellach o'r arfordir wedi bod yn gweld niferoedd tebyg o ymwelwyr i'r rhai yn 2015.

"Roedd hi'n dawelach na'r llynedd. Oherwydd y tywydd heulog aeth pobl i'r arfordir"

Tueddiadau i fwcio ar y funud olaf ac am lai o amser

- 2.5 Mae tueddiad parhaus i fwcio ar y funud olaf, gyda'r rhai sy'n bwcio'n aros am ragolygon tywydd cadarnhaol cyn gwneud hynny. Mae pobl hefyd yn tueddu i fwcio llety am gyfnodau byrrach. Er mwyn addasu i anghenion sy'n newid, mae rhai darparwyr llety'n cynnig arosiadau un noson.

"Mae gan lawer o westai bolisi dwy noson, ond mae rhai o'r gwestai hynny bellach yn ystyried cynnig arosiadau un noson os yw'n agos at y penwythnos"

"Y tueddiad dw i wedi sylwi arno yw cael rhagor o egwylliau byr. Mae mwy a mwy o bobl, yn enwedig y rhai o Lundain, yn cael egwylliau llai gan nad oes ganddynt lawer o wyliau, yn ôl pob golwg"

"Mae rhai o'n haelodau hirsefydlog ni wedi edrych ar ddydd Gwener gŵyl banc y gwanwyn a gweld nad oes ganddynt unrhyw fwciadau o gwbl, ond yn ystod gŵyl y banc byddai'r lle yn llawn, a oedd yn anhygoel. Nid yw rhai pobl yn bwcio tan y funud olaf – ar ddydd Gwener ei hun!"

Mae'r haf yn argoeli'n dda

2.6 Gyda phobl yn bwcio ar y funud olaf, mae'n gallu bod yn anodd rhagweld cyfnod yr haf, yn enwedig ar gyfer y rhai yn y sectorau llely.

2.7 Fodd bynnag, mae'r teimlad yn un cadarnhaol ar y cyfan.

"Yn draddodiadol mae pobl yn bwcio'n hwyr ar gyfer tymor yr haf"

"Mae gweddill yr haf yn argoeli'n eithaf cadarnhaol"

"Rydyn ni'n mynd i fod yn arbennig o brysur, dyma'r flwyddyn brysuraf hyd yn hyn, rydyn ni wedi bod yn fwy ac yn fwy prysur bob blwyddyn dros y pedair blynedd diwethaf"

"Mae gweddill yr haf yn argoeli'n dda"

Mae mwy o hyder mewn bwcio'n uniongyrchol

2.8 Mae safleoedd bwcio ar-lein yn parhau i fod yn gadarnhaol – fodd bynnag, mae tueddiad cynyddol i ymwelwyr blaenorol fwcio'n uniongyrchol.

"Mae pobl sy'n dychwelyd yn dechrau bwcio'n uniongyrchol unwaith y maent wedi 'profi'r dŵr' gyda thrydydd parti"

Mae angen targedu'r farchnad gyn-ysgol

2.9 Mae ofni cael eu dirwyo gan awdurdodau lleol yn golygu nad yw rhieni'n tueddi i fynd ar wyliau gyda'u plant yn ystod tymor yr ysgol. Mae hyn yn arwain at nifer y plant yn ystod gwyliau hanner tymor yn chwyddo, sy'n gallu arwain at broblemau staffio.

2.10 Mae llawer yn dechrau canolbwyntio ar y farchnad gyn-ysgol, ac yn denu rhagor o deuluoedd ifanc i Gymru. Gall fod hon yn ystyriaeth ddiweddar, dyma rywbeth i 'gadw llygad arno'.

"Mae pobl yn gwyllo'r sefyllfa ynglŷn â gwyliau ysgol yn ofalus iawn yn gyffredinol. A yw'n rhoi cyfleoedd gwell i gael cynnig da? Nid yw bobl yn hollol siŵr lle byddant yn mynd."

Cadw cysylltiad â'r we

2.11 Mae rhai ymatebwyr yn credu ei bod yn gynyddol bwysig i ymwelwyr gael cysylltiad â'r we pan fyddant yn aros yng Nghymru. Er bod Cymru'n cael ei gweld fel lle i bobl ddianc o'u bywyd bob dydd yn ystod blynyddoedd y gorffennol, mae'r angen i achub y blaen yn y gwaith yn golygu bod yn rhaid i rai pobl gael mynediad at y we yn ystod eu hymweliad.

"Mae angen band eang, WiFi arnynt, er mwyn iddynt barhau i weithio pan fyddant ar wyliau – mae'n mynd yn fwy pwysig, yn enwedig i bobl brysur o Lundain"

3. CEFNDIR A METHODOLEG

Beth yw Barometr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 3.1 Nod Barometr Busnes Twristiaeth Cymru yw rhoi adborth yn gyflym ynglŷn â sut mae busnes twristiaeth Cymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r arolwg wedi cael ei gynnig ar wahanol ffurfiau ers 2005, ac fel arfer mae rhwng dau a phum cam ymchwil yn cael eu cynnal bob blwyddyn.
- 3.2 Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â gŵyl banc y gwanwyn a hanner tymor 2016, gyda mesuriadau hefyd o ddisgwyliadau ar gyfer tymor yr haf nesaf. Mae cwestiynau ad-hoc am y ffordd mae gweithredwyr yn hyrwyddo eu busnes hefyd wedi cael eu cynnwys yn y cam hwn.

Sut mae'r arolwg yn cael ei gynnal?

- 3.3 Mae'r arolwg hwn wedi cael ei wneud ar gael i'w gwblhau ar-lein fel dull amgen i'r ffôn, a oedd yr unig ddull i gael ei ddefnyddio cyn 2016.
- 3.4 Rydym wedi cynnal dros 800 o gyfweiliadau dros y ffôn, ac mae'r arolwg ar-lein a gafodd ei gynnal gan bartneriaid ardal a phartneriaid sector wedi cynnig 125 o ymatebion ychwanegol. Mae'r holl sampl o 925 yn gwneud y cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.2\%$.
- 3.5 Mae'r sampl o 925 o ymatebion yn adlewyrchu'r sector twristiaeth yng Nghymru, ac yn cael eu dangos isod yn ôl sector a rhanbarth:

Sector/Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety a wasanaethir	89	57	62	67	275
Hunanarlwyo	68	56	78	36	238
Safleoedd carafanau/gwersylla	44	25	33	7	109
Hosteli	8	5	7	6	26
Atyniadau	46	21	35	41	143
Bwytai/tafarnau/caffis	13	9	10	15	47
Darparwyr gweithgareddau	37	12	25	13	87
Cyfanswm	305	185	250	185	925


- 3.6 Mae tua hanner (53%) y gweithredwyr yn y sampl yn cael eu graddio gan Groeso Cymru ar hyn o bryd, a'r gweddill (47%) heb gael eu graddio. Mae'r enghreifftiau sy'n cael eu graddio

a'r rhai nad ydynt yn cael eu graddio yn cael eu rhannu rhwng y gwahanol ranbarthau a sectorau, ar wahân i fwytai/tafarnau/caffis a darparwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio'n berthnasol. Mae gweithredwyr bwytai, tafarnau a chaffis wedi cael eu dewis mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel o dwristiaeth ar draws rhannau gwahanol Cymru, ac wedi cael eu gofyn i ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu cwsmeriaid sy'n dwristiaid (hynny yw, nad ydynt yn bobl leol).

- 3.7 Mae'r holl gyfweiliadau ffôn â pherchnogion neu reolwyr busnes wedi cael eu cynnal rhwng 6 a 15 Mehefin. Mae copi o'r holiadur a ddefnyddiwyd yn yr atodiadau.

4. PERFFORMIAD YN YSTOD GŴYL BANC Y GWANWYN A HANNER TYMOR

PERFFORMIAD YN ÔL SECTOR



Mae tywydd braf yn rhoi hwb i fusnes ar gyfer gwerysllwyr hapus

- 4.1 Mae dau o bob pum (40%) busnes wedi croesawu rhagor o ymwelwyr dros ŵyl banc y gwanwyn a hanner tymor, o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, ac mae 45% pellach wedi croesawu tua'r un nifer.
- 4.2 Mae'r sector carafanau a gweryslla yn enwedig wedi cael nifer o wythnosau cryf, gyda 62% yn adrodd am gynnydd yn nifer yr ymwelwyr. Mae cyfran uchel (84%) o'r gweithredwyr safle gweryslla a ymatebodd sydd wedi gweld rhagor o ymwelwyr, yn dweud bod tywydd braf wedi helpu i yrru rhagor o bobl at eu safleoedd.

"Mae'r tywydd braf yn annog pobl i fwcio gyda ni"
Carafanau a gweryslla, De-orllewin

"Rydyn ni wedi bod yn llawn yr hanner tymor hwn"
Carafanau a gweryslla, De-orllewin

"Roedd y tywydd brafiach ym mis Mai yn golygu busnes gwell o lawer"
Carafanau a gweryslla, Gogledd

"Roedd hwn yn gyfnod prysur a llwyddiannus, yn bennaf oherwydd y tywydd"
Carafanau a gweryslla, Canolbarth

Cyfnod gwell ar gyfer atyniadau a bwytai/tafarnau/caffis

- 4.3 Mae'r tywydd gwell hefyd wedi chwarae rhan gref wrth i atyniadau a bwytai/tafarnau/caffis fwynhau niferoedd uwch o ymwelwyr. Mae dros hanner (57%) o'r tafarnau a bwytai yn nodi cynnydd, gyda 88% o'r rhain yn dweud bod y tywydd yn un rheswm dros gael rhagor o fusnes.


"Y tywydd oedd y prif reswm"
Bwyty/tafarn/caffi, Gogledd

- 4.4 Yn yr un modd, mae 54% o atyniadau wedi gweld nifer yr ymwelwyr yn cynyddu. Ac mae 72% o'r rhain yn dweud mai'r tywydd gwell sy'n gyfrifol am ragor o bobl yn ymweld â'u hatyniad.

"Roedd y tywydd yn golygu inni gael penwythnos gŵyl banc llwyddiannus iawn"
Atyniad, De-ddwyrain

"O gymharu â'r llynedd, cawsom 2,000 o ymwelwyr ychwanegol eleni dros ŵyl banc y gwanwyn a hanner tymor"
Atyniad, Gogledd

PERFFORMIAD YN ÔL RHANBARTH




Sail: 866

Nid oes llawer o wahaniaethau sylweddol rhwng y rhanbarthau

- 4.5 Mae lefelau uchel o ymatebwyr ym mhob rhanbarth wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr maent wedi eu cael dros ŵyl banc y gwanwyn a hanner tymor, o gymharu â'r un cyfnod y llynedd yn 2015. Ar y cyfan, nid oes llawer o wahaniaethau sylweddol rhwng y rhanbarthau.
- 4.6 Mae bron hanner (45%) yr ymatebwyr o'r Canolbarth wedi gweld cynnydd, fel y mae 43% yn y De-ddwyrain. Mae dau o bob pump (40%) yn y Gogledd hefyd wedi gweld rhagor o fusnes.
- 4.7 Mae'r gyfran yn y De-orllewin ychydig yn is, gyda thuag un o bob tri (34%) yn nodi cynnydd yn nifer yr ymwelwyr.

RHESYMAU DROS NIFEROEDD UWCH O YMWELWYR



Mae tywydd gwell yn golygu niferoedd uwch o ymwelwyr

4.8 Mae tuag un o bob tri (65%) o weithredwyr wedi dweud mai'r tywydd cynnes, sych dros wyl banc y gwanwyn a hanner tymor yw'r rheswm dros y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr. Yn enwedig, mae bwytai/tafarnau/caffis yn credu bod y tywydd braf wedi helpu niferoedd (88%), fel y mae safleoedd carafanau a gwersylla (84%), atyniadau (72%) a hosteli (70%).

"Roedd yr hanner tymor yn llwyddiannus gan fod y tywydd yn ardderchog"
Carafanau a gwersylla, Canolbarth

"Oherwydd y tywydd braf mae busnes wedi bod ar i fyny"
Carafanau a gwersylla, Gogledd

"Mae rhagor o bobl sydd ar eu gwyliau'n aros yn yr ardal oherwydd y tywydd gwych dros holl wythnos yr hanner tymor"
Atyniad, Canolbarth


Rhesymau eraill dros y gwelliant

- 4.9 Ar gyfartaledd, mae 17% o weithredwyr sydd wedi gweld cynnydd yn dweud ei fod, yn rhannol, oherwydd rhagor o dwristiaid. Mae tua chwarter (24%) o ddarparwyr gweithgareddau yn credu bod hyn yn wir, fel y mae 22% o'r ymatebwyr yn y sector llety a wasanaethir.
- 4.10 Mae gwneud eu marchnata eu hunain wedi helpu busnesau i groesawu rhagor o ymwelwyr. Mae canran uwch o lawer o ddarparwyr gweithgareddau (48%) yn dweud bod gwneud eu marchnata eu hunain wedi rhoi hwb iddynt, o gymharu â 10% ar draws y sectorau eraill.

"Dw i'n disgwyl elw uwch eleni. Rydym yn teimlo'n hyderus iawn ynghylch yr haf. Rydym yn hysbysebu'n bennaf trwy ein gwefan ein hunain, a'r cyfryngau cymdeithasol."

Darparwr gweithgareddau, Gogledd

RHESYMAU DROS NIFEROEDD IS O YMWELWYR



Sail: 133

Mae tywydd braf yn golygu busnes gwael i rai

- 4.11 Mae tua chwarter (26%) o ymatebwyr sydd wedi gweld nifer eu hymwelwyr yn gostwng yn dweud bod y tywydd wedi cael effaith wael ar eu busnes.
- 4.12 Yn aml mae'r rhain yn fusnesau sy'n denu pobl sydd am gysgodi rhag y glaw, ac o ganlyniad yn gweld llai o ymwelwyr pan fydd hi'n heulog. Neu mae oherwydd eu bod wedi eu lleoli i

ffwrdd o'r arfordir, ac yn credu bod ymwelwyr posibl yn fwy tebygol o fynd i'r traeth neu lân y môr pan fydd yr haul yn gwenu.

"Fel arfer mae tywydd braf yn cael effaith negyddol ar fusnesau yng nghanol y ddinas, oherwydd pan fydd hi'n heulog iawn bydd bobl yn mynd i'r arfordir"


Llety a wasanaethir, De-ddwyrain

"Pan fydd y tywydd yn wael, yna bydd pobl yn dod aton ni"

Atyniad, De-orllewin

5. PERFFORMIAD ELENÍ HYD YMA

PROFFIDIOLDEB



Sail: 803

Proffidioldeb wedi cynyddu'n sylweddol

5.1 Yn galonogol, mae dau o bob pum (41%) gweithredwr yn dweud bod eu proffidioldeb eleni hyd yma'n well na 2015. Mae'r sector bwytaí/tafarnau/caffis wedi gweld proffidioldeb yn cynyddu'n sylweddol, gyda dros hanner (56%) yn dweud eu bod wedi gwneud mwy o elw o gymharu â'r llynedd.

"Mae proffidioldeb yn uwch o 20%"


Llety a wasanaethir, Canolbarth

"Mai oedd y tro cyntaf inni brofi gwir gynnydd yn nifer yr ymwelwyr/elw"

Llety a wasanaethir, Gogledd

6. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER YR HAF

DISGWYLIADAU YN ÔL SECTOR



Sail: 905

Rhagwelir haf llwyddiannus

6.1 Mae tuag un o bob pum (41%) gweithredwr yn teimlo'n hyderus ynghylch gweddill yr haf, ac yn disgwyl i fod ar eu hennill o gymharu â'r llynedd, ac mae 39% pellach yn disgwyl niferoedd tebyg o ymwelwyr.

"Ym mis Ebrill eleni roeddem wedi cael ein bwcio'n llawn tan ddiwedd mis Awst – dyw hynny erioed wedi digwydd o'r blaen. Rydym wedi cael rhagor o fwciadau cynnar eleni nag erioed o'r blaen. Rydym wedi cael ein bwcio'n llawn o'r blaen ond erioed mor gynnar."

Hunanarlwyo, De-orllewin

"Mae ein bwciadau ar gyfer yr haf yn argoeli'n dda, gan fy mod wedi sylwi ar ragor o bobl yn bwcio ar ddiwrnodau gwaith arferol"

Darparwr gweithgareddau, Gogledd

"Dw i'n teimlo'n hyderus iawn ynghylch yr haf"

Llety a wasanaethir, Canolbarth

"Dw i wedi cael fy mwocio'n llawn hyd at fis Medi, felly, dw i'n hyderus iawn ynghylch yr haf"


Hunanarlwyo, Canolbarth

- 6.2 Mae gan fwytai/tafarnau/caffis disgwyliaid uchel ar gyfer y misoedd nesaf, gyda hanner (50%) ohonynt yn gweld rhagor o ymwelwyr yn dod trwy eu drysau.
- 6.3 Mae llawer o weithredwyr yn dweud bod eu disgwyliaid ar gyfer yr haf yn ddibynnol ar y tywydd, a fydd yn gwneud yr holl wahaniaeth i rai ymwelwyr.

"Byddwn ni'n cael rhagor o fusnes yn dibynnu os yw'r tywydd yn braf"
Bwyty/tafarn/caffi, De-ddwyrain

"Mae ein busnes yn ystod yr haf yn ddibynnol ar y tywydd, felly, dw i ddim yn gallu dweud pa mor dda y byddwn ni'n gwneud ar hyn o bryd"
Llety a wasanaethir, De-ddwyrain

HYDER YN ÔL Y SECTOR




Sail: 925

Hyder uchel ar gyfer tymor yr haf

- 6.4 Mae lefelau o hyder yn uchel wrth edrych tuag at dymor yr haf. Ar gyfartaledd, roedd 87% o weithredwyr naill ai'n hyderus iawn (40%) neu'n eithaf hyderus (47%) ynghylch y cyfnod. Mae pob hostel (100%) naill ai'n hyderus iawn neu'n eithaf hyderus ynghylch yr haf.
- 6.5 Roedd y sector hunanarlwyo (50% yn hyderus iawn) a'r sector bwyty/tafarnau/caffis (49%) yn dweud yn fwy rheolaidd eu bod yn 'hyderus iawn'. Nid oes llawer o wahaniaethau rhwng y rhanbarthau.

7. HYRWYDDO BUSNESAU

PRIF WEITHGAREDD HYRWYDDO



Mae gwneud eich marchnata eich hunain yn arwain y ffordd

- 7.1 Mae dros hanner (54%) y gweithredwyr a ymatebodd yn dweud bod gwneud eu marchnata eu hunain yn un o'r prif ffyrdd o hyrwyddo eu busnes.
- 7.2 Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn dilyn yn agos gyda 48% yn dweud bod yn defnyddio platfformau megis Facebook, Twitter ac Instagram yn ffordd o hyrwyddo eu busnes.

"Rydym yn weithredol iawn ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn ein hyrwyddo ein hunain, rydym yn defnyddio Facebook, Twitter ac Instagram"
Llety a wasanaethir, De-orllewin

"Rydym yn gwneud llawer mwy ar y cyfryngau cymdeithasol trwy ein tudalennau Facebook a Twitter"
Darparwr gweithgareddau, Gogledd

- 7.3 Rydyn ni'n dibynnu ar argymhellion llafar ac ymwelwyr yn dod yn ôl, yn rhannol, yn fwy na dwy o bob pum rhan o'r amser (43% argymhellion llafar; 42% ymwelwyr yn dod yn ôl).

"Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n bwcio gyda ni wedi ymweld â ni o'r blaen"
Carafanau a gwerysilla, Canolbarth

*"Dydyn ni ddim yn gwneud llawer o farchnata, yn bennaf rydym yn defnyddio
Facebook, argymhellion llafar ac ymwelwyr yn dod yn ôl"*
Llety a wasanaethir, Canolbarth

"Mae dros hanner ein busnes yn dod trwy bobl sydd wedi ymweld â ni o'r blaen"
Darparwr gweithgareddau, Gogledd


*Rydyn ni'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a hefyd yn dibynnu ar argymhellion
llafar ac ymwelwyr yn dod yn ôl"*
Hunanarlwyo, Gogledd

- 7.4 Mae bron un o bob tri (31%) o weithredwyr a ymatebodd yn dweud eu bod yn defnyddio safleoedd bwcio ar-lein megis booking.com a laterooms.com i ddenu rhagor o fusnes.

"Rydyn ni'n gweld bod llawer o bobl yn bwcio trwy wefannau megis booking.com"
Llety a wasanaethir, De-orllewin

"Mae cyfran fwy o bobl yn bwcio trwy wefannau megis booking.com"
Llety a wasanaethir, De-ddwyrain

NEWIDIADAU I DDULLIAU HYRWYDDO



Newid i ddulliau hyrwyddo

- 7.5 Dros y tair blynedd diwethaf mae llawer o weithredwyr (40%) wedi newid y ffordd maent yn hyrwyddo eu busnes. Mae bron hanner (48%) yr atyniadau wedi diwygio'r ffordd maent yn gwneud gwaith hyrwyddo.
- 7.6 O'r gweithredwyr busnes sydd wedi newid y ffordd maent yn gwneud gwaith hyrwyddo, mae'r rhan fwyaf yn dweud eu bod yn gwneud rhagor o waith ar-lein o gymharu â thair blynedd yn ôl. Yn benodol, mae llawer yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gynyddol – gyda Facebook yr un y soniwyd amdano mwyaf – fel ffordd o yrru busnes newydd i'w drysau.

"Rydyn ni wedi troi at ragor o hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn diweddfaf, ac mae hynny'n gweithio yn ôl pob golwg"
Llety a wasanaethir, Canolbarth

"Rydyn ni'n dwlu ar Facebook, gallwn ni roi gwybodaeth, digwyddiadau ar Facebook, galla' i bostio rhywbeth ar unwaith i gwsmeriaid ei weld"
Hunanarlwyo, Gogledd

"Mae llawer mwy o bobl yn defnyddio Twitter a Facebook, ac o'r herwydd rydyn ni'n hysbysebu llawer mwy yno erbyn hyn"
Bwyty/tafarn/caffi, De-ddwyrain

- 7.7 Mae ymatebwyr eraill yn rhoi amser, arian ac ymdrech i ddiweddarau a gwella eu gwefannau eu hunain. Yn aml mae hyn er mwyn diweddarau'r gwefan yn weledol, eu gwneud yn fwy addas ar gyfer gwahanol ddyfeisiau, neu er mwyn ceisio dod yn uwch ar beiriant chwilio.

"Rydyn ni wedi diweddarau ein gwefan er mwyn ei gwneud yn fwy addas ar gyfer dyfeisiau symudol. Yn ôl pob golwg mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar bobl, gan fod pobl wedi llwyddo i ddod ar ein traws ar eu ffordd i Gymru"

Carafanau a gwersylla, Canolbarth

"Rydyn ni'n gwella'r wefan, yn defnyddio rhagor ar y rhyngwrwyd"

Carafanau a gwersylla, Gogledd

"Rydyn ni wedi diweddarau ein gwefan ein hunain ein mwyn gwella ein safle ar beiriannau chwilio"

Hunanarlwyo, Canolbarth

7.8 Mae rhai yn dweud eu bod yn gwneud defnydd mwy helaeth o wefannau bwcio, neu'n troi at wefannau cynigion er mwyn denu busnes newydd.

"Rydyn ni'n dibynnu mwy ar wefannau bwcio ar-lein sy'n seiliedig ar gomisiwn. Dydyn ni ddim o reidrwydd yn hapus am hyn oherwydd y ffioedd comisiynu"

Llety a wasanaethir, Gogledd

"Rydyn ni'n defnyddio rhagor o drydydd partiön y dyddiau 'ma megis Groupon"

Atyniad, De-ddwyrain

7.9 Yn y sylwadau agored dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn symud i ffwrdd o hysbysebu mewn papurau newyddion a chylchgronau, gan nad ydynt yn cael cymaint yn ôl ag yr oeddent yn ystod blynyddoedd blaenorol.


"Gwnaethon ni dorri i lawr ar faint rydyn ni'n hysbysebu mewn cylchgronau"

Carafanau a gwersylla, Gogledd

"Dw i'n gwneud llai o hysbysebu trwy gyfryngau papur. Dw i ddim yn hysbysebu mewn cylchgronau bellach, dw i ddim wedi talu am daflenni, rydyn ni'n gwneud llawer mwy ar-lein"

Darparwr gweithgareddau, Gogledd

BWCIO TRWY DRYDYDD PARTI YN ERBYN BWCIO YN UNIONGYRCHOL




Sail: 795

Mae darparwyr yn gweld y gyfran sy'n bwcio'n uniongyrchol o gymharu â'r rhai sy'n bwcio trwy drydydd parti yn agos at 50/50

- 7.10 Wrth ddewis ennill busnes yn uniongyrchol neu drwy drydydd parti, mae gweithredwyr yn dewis rhwng maint yr elw (trwy gwsmeriaid yn archebu gyda nhw'n uniongyrchol) a niferoedd (trwy fanteisio ar bŵer marchnata mwy'r trydydd parti, ond ar draul talu comisiwn iddynt).
- 7.11 Mae'r cwestiwn hwn wedi gweld atebion yn amrywio'n enfawr, rhwng gweithredwyr sy'n dibynnu'n llwyr ar eu hymdrechion marchnata eu hunain, a'r rhai sy'n mynd am niferoedd gyda thrydydd parti ar draul rhywfaint o elw. Mae llawer o weithredwyr yn dewis dull cymysg.
- 7.12 Ar draws pob sector, mae cyfartaledd o 65% o fusnes yn dod yn uniongyrchol, a 35% yn dod trwy drydydd parti. Mae sectorau nad ydynt yn cynnig llety yn derbyn mwyafrif eu busnes yn uniongyrchol, ond ymhlith gweithredwyr sy'n cynnig llety mae'r ffigur yn agosach at 50/50.

TRYDYDD PARTI YN ERBYN BWCIO YN UNIONGYRCHOL – Y NEWID DROS Y TAIR BLYNEDD DIWETHAF



Sail: 715

Symudiad bach tuag at fwcio trwy drydydd parti ym mhob sector

- 7.13 Mae pob sector wedi gweld symudiad bach o dderbyn busnes yn uniongyrchol i dderbyn busnes trwy drydydd parti yn ystod y tair blynedd diwethaf, ar wahân i'r sector hunarlwyo, sydd wedi aros tua'r un peth.
- 7.14 Ar draws pob sector roedd cyfartaledd o 31% o fusnes yn dod trwy drydydd parti dair blynedd yn ôl, o gymharu â 35% heddiw.
- 7.15 Mae'r sector llety a wasanaethir wedi gweld symudiad sylweddol tuag at dderbyn busnes trwy drydydd parti – 35% dair blynedd yn ôl, o gymharu â 44% heddiw.

Newidiadau i dueddiadau bwcio

- 7.16 Trwy'r sylwadau agored mae'r gweithredwyr a ymatebodd yn nodi rhai newidiadau i dueddiadau ynglŷn â sut mae cwsmeriaid yn bwcio dros y tair blynedd diwethaf.
- 7.17 Mae llawer yn dweud bod mwy a mwy o bobl yn dewis bwcio ar-lein yn hytrach na ffonio'r busnes yn uniongyrchol.

"Does dim llawer o fusnes yn digwydd dros y ffôn mwyach Mae popeth ar y we. Mae hyd yn oed y bobl hŷn - 70 neu 80 mlwydd oed - yn bwcio ar-lein. Dair blynedd yn ôl bydden nhw wedi fy ffonio i."

Carafanau a gweryslla, Canolbarth

"Yn flaenorol roedd cwsmeriaid yn ein ffonio ni, neu'n anfon e-bost i fwcio. Roedd hyn yn hirwyntog. Heddiw rydyn ni'n defnyddio terfynell rithiol, sy'n caniatáu bwcio ar unwaith"

Carafanau a gweryslla, Canolbarth

"Mae mwy yn digwydd ar y we yn hytrach na thrwy gysylltiad personol"

Hunanarlwyo, Canolbarth

7.18 Mae'r sianel ar-lein mae pobl yn ei defnyddio, fodd bynnag, yn amrywio. Weithiau maent yn derbyn bwciadau trwy eu gwefan busnes eu hunain, ond mae llawer yn defnyddio gweithredwyr trydydd parti i wneud y bwciad terfynol, sy'n gallu effeithio ar yr elw a welir gan y busnes.

"Dw i wedi gweld bod pobl am fwcio ar-lein trwy'r asiantaethau ar-lein mawr, fel booking.com ac Expedia. Fodd bynnag, mae'n ddrud i fusnesau bach fel ni ddefnyddio'r rhain"

Llety a wasanaethir, De-orllewin

"Mae mwy a mwy o bobl yn bwcio trwy gwmnïau fel booking.com"

Hostel, Canolbarth

7.19 Mae rhai ymatebwyr yn dweud bod pobl wastad yn chwilio am ostyngiadau, a dydyn nhw ddim am dalu'r ffi gyflawn am eu hymweliad.

"Dw i wedi sylw ar y ffaith bod llawer o bobl am gael gostyngiad, yn hytrach na dim ond derbyn y gost safonol"

Hunanarlwyo, Gogledd

"Mae mwy a mwy o bobl yn defnyddio talebau Groupon"

Darparwr gweithgareddau, De-ddwyrain

7.20 Mae'r nifer sy'n bwcio ar y funud olaf yn codi, ar gyfer rhai, sy'n ei chael yn fwyfwy anodd rhagweld sut y bydd y tymhorau nesaf yn eu trin.

"Dw i wedi nodi bod pobl yn bwcio ar y funud olaf yn fwy, dydyn nhw ddim yn bwcio flwyddyn ymlaen llaw cymaint"

Hunanarlwyo, Canolbarth

"Mae llawer yn bwcio ar-lein ac yn bwcio'n hwyr y dyddiau 'ma. Ar un adeg byddai pobl yn bwcio am bythefnos ddau fis ymlaen llaw; Y dyddiau 'ma mae pobl yn bwcio ar ddydd Llun i ddod ar ddydd Mercher"

Carafanau a gweryslla, Canolbarth

"Mae bwcio ar gyfer digwyddiadau yn fwy munud olaf byth. Dyw pob ddim yn hoffi cynllunio'n rhy bell ymlaen llaw, gan ei adael tan ddiwrnod y digwyddiad hyd yn oed"
Atyniad, Gogledd

7.21 Mae arosiadau byrrach ar i fyny ar gyfer rhai, yn ôl pobl golwg. Yn hytrach na chael eu prif wyliau yng Nghymru, mae pobl yn dewis treulio eu hegwylliau dramor.

"Mae grwpiau mwy o faint yn chwilio am egwylliau byr. Dw i'n credu eu bod am gael dwy set o wyliau - un dramor ac un yma, ond mae angen arbed arian arnynt, felly, maent yn cael egwylliau byrrach yma"
Hunanarlwyo, De-orllewin

"Dw i wedi sylwi ar y ffaith bod cwsmeriaid yn bwcio egwylliau byrrach y dyddiau 'ma"
Llety a wasanaethir, De-orllewin